



BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
AR GYFER
CARCHAR CAERDYDD**

CYFNOD ADRODD

1^{AF} MEDI 2014 - 31^{AIN} AWST 2015

Mae Carchar Caerdydd yn garchar Fictoraidd traddodiadol sy'n dyddio'n ôl i 1830. Ei brif rôl oedd i fod yn garchar cynhaliol ar gyfer carcharorion ar remand a'r rhai gyda dedfryd byr i ganolig. Roedd y llety yn nodweddiadol Fictoraidd gyda lefelau uchel o orlenwi gyda thri charcharor yn aml yn rhannu cell.

Ychwanegwyd adenydd newydd yn 1996 i letya 200 o garcharorion, gan gynnwys 96 "carcharor oes". Cwblhawyd gwaith adnewyddu pellach yn 2004 gyda'r gallu gweithredu'n cynyddu i 754 gan ychwanegu 50 lle ychwanegol ym mis Rhagfyr 2008, gan godi'r nifer i 804. Gydag ychwanegiad pellach yn 2014 fe gododd y capasiti presennol i 820.

Mae Caerdydd yn garchar Categori B, sydd wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas ac mae'n bennaf yn gwasanaethu Llysoedd yn hanner gorllewinol De Cymru a Chymoedd y De. Mae'n lletya cyfuniad o garcharorion Remand, Treialon a'r rhai a gafwyd yn euog. Mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd mewn hyfforddiant, addysg, dadwenwyno o gyffuriau ac alcohol a mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol.

Mae Caerdydd yn derbyn Oedolion Ifanc ar remand sy'n ychwanegol at ei swyddogaeth fel carchar hyfforddi ar gyfer carcharorion a ddedfrydwyd i ddeuddeg mis neu lai

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn gofyn bod pob carchar ac IRC yn cael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o blith aelodau o'r gymuned ble mae'r carchar wedi ei leoli.

Mae'r Bwrdd yn benodol gyfrifol am: -

(1)

Bodloni ei hun am driniaeth drugarog a chyfiawn y rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei garchar ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.

(2)

Rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n barnu'n briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddo.

(3)

Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar sut mae'r carchar wedi bodloni'r Safonau a gofynion a osodwyd arno a pha effaith mae'r rhain yn ei gael ar y rhai sydd yn y ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau yr hawl i ymweld â phob carcharor a phob rhan o'r carchar a chofnodion y carchar hefyd.

3.1 Mae dau garcharor yn y rhan fwyaf o gelloedd y carchar ac mae diffyg parhaus o wedduster a phreifatrwydd o ran y defnydd o doiledau mewn nifer fawr o gelloedd, er gwaethaf tynnu sylw at y mater mewn adroddiad blaenorol. Yr wyf yn cael ar ddeall bod y llenni yn y storfa, ond eu bod heb gael eu rhoi i fyny eto.

3.2 Mae cwynion rheolaidd yn cael eu derbyn gan y carcharorion nad yw system gwyno fewnol y carchar yn gweithredu'n effeithlon. Mae amseroedd ymateb yn cael eu colli'n gyson a weithiau does dim ymateb o gwbl. Mae hyn yn arwain at yr IMB yn gorfod cymryd rhan mewn materion a ddylai fod wedi cael eu datrys gryn amser yn ôl. Mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i ailgyfeirio materion at staff yr adain ar gyfer materion o ddydd i ddydd, ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 40% mewn ceisiadau IMB sydd felly'n caniatáu mwy o amser ar gyfer dyletswyddau monitro.

3.3 Mae'r "anterthau cyfreithiol" fel y'u gelwir yn her barhaus i atal eu defnydd ac mae'r Llywodraethwr yn gwneud cynnydd wrth ddarganfod llwybrau cyflenwi. Mae'n rhoi goruchwyliaeth fanylach yn ystod ymweliadau ac mae ci diogelwch y carchar wedi cael ei hyfforddi i ganfod y sylweddau hyn. Yn anffodus, bu anafiadau erchyll, a wnaed gan y carcharorion eu hunain o dan ddylanwad y "Spice" a ddarparwyd o fewn tybaco, fel y gellir gweld sut mae carcharorion yn ymateb i'r sylwedd heb iddynt sylwi. Mae rhybuddion addas wedi cael eu cyhoeddi

3.4 Mae camerâu corff personol wedi eu darparu yn ddiweddar i staff, sydd wedi profi i fod yn effeithiol o ran lleihau gwrthdaro. Mae llai o frwdfrydedd i orymateb pan fyddant yn cael gwybod bod gweithredoedd carcharor yn cael eu cofnodi.

3.5 Mae gwelliannau enfawr wedi cael eu gwneud o ran darparu cyfleusterau y tu allan i'r gell, ar gyfer dwy ran o dair o'r dydd ar gyfer gwaith/addysg ac ati, ond yn anffodus, gyda "throsiant" mor fawr o garcharorion remand, mae'n well gan lawer aros o fewn eu celloedd a gwyllo teledu. Mae hyn yn siomedig gan fod y carchar wedi cymryd camau mawr wrth ddarparu'r trefniant hwn ac mae monitro dyddiol yn digwydd i leihau'r nifer nad oedd eisiau gweithio.

3.6 Mae niferoedd staff a llwyth gwaith yn peri pryder er gwaethaf penodi swyddogion ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae gwyllo gwllâu, dyletswyddau ar wahân a hebryngwyr yn lleihau ymhellach nifer y staff yn y carchar ac yn enwedig ar y penwythnos, pan mae dibyniaeth drom ar dalu taliadau goramser. Mae'n arfer reolaidd i gael trefn gyfyngedig, lle mai dim ond hanner y carcharorion sydd allan o'u celloedd ar unrhyw un adeg, er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod y cyfleusterau arferol ar gael. Mae problemau hefyd bod wrth recriwtio staff mewn rôl Amrywiaeth. Mae llawer o ymddiswyddiadau wedi bod oherwydd bod dim digon o amser wedi bod ar gael i wneud eu dyletswyddau amrywiaeth.

3.7 Mae'r trefniadau diwygiedig ar gyfer Adsefydlu wrthi'n ymsefydlu gyda Chwmni Adsefydlu Cymunedol yn cymryd cyfrifoldeb. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i ddilyn cynnydd ac mae materion yn cael eu monitro'n agos gan y Bwrdd.

3.8 Bu rhywfaint o ofnau gan garcharorion ynghylch y gwaharddiad sydd i ddod ar dybaco. Ni ddarparwyd llawer o wybodaeth fanwl cyn diwedd y cyfnod adrodd, ond rwyf yn falch o ddweud bod manylion cynhwysfawr bellach wedi cael eu cylchredeg. Bydd hyn yn cael goblygiadau anhysbys ac mae angen i ni i gyd fonitro'r sefyllfa yn barhaus.

Cydraddoldeb a chynhwysiant

1 Roedd y data a gafwyd yn foddhaol ym mhob maes. Nid yw'r ffigurau chwarterol fodd bynnag bob amser ar gael ar gyfer y cyfarfod amrywiaeth. Mae'r Hwb perfformiad yn darparu canran ar ddata a gasglwyd ar gyfer pob nodwedd warchoddedig - byddai 98% yn cael ei ystyried fel cyfradd dda o gipio data.

Yn anffodus, mae cyfarfodydd yn cael eu canslo yn rheolaidd, yn aml ar fyr rybudd.

Nodweddion Gwarchoddedig.

2 Mae nifer y carcharorion ym mhob ystod oedran wedi aros yn weddol gyson. Fodd bynnag, mae'n werth nodi mai dim ond un carcharor yn y ddalfa oedd o oedran ymdeol cyfreithiol. Yn yr un modd, mae niferoedd carcharorion anabl yn parhau'n gyson, gyda'r rheini sydd ag anawsterau dysgu neu anabledau yn cynrychioli'r niferoedd uchaf.

3 Un mater parhaus ers mis Chwefror yw y dylid archebu sliperi a gynau gwisgo ar gyfer carcharorion hŷn sy'n teimlo'r oerfel.

4 Mae cotiau trwchus wedi'u harchebu a'u gosod yn y Dderbynfa ac mae sliperi hefyd yn cael eu darparu ar gais.

Gwladolion Tramor

5 Mae nifer y gwladolion tramor yng Ngharchar Caerdydd yn uwch nag yn flaenorol, sef 10.2% erbyn hyn

Cynrychiolwyr carcharorion/Grwpiau Ffocws/Amrywiaeth Swyddogion

6. Ym mis Chwefror, rhoddodd y ddau Swyddog Amrywiaeth y gorau i'w swyddi, gan nodi eu rhwystredigaeth ynghylch y diffyg amser a ddyrennir i gyflawni eu dyletswyddau. Dechreuodd swyddog newydd yn y rôl ac fe gytunodd un o'r swyddogion a ymddiswyddodd yn flaenorol i aros ymlaen i gynorthwyo'r swyddog newydd.

7. Yn anffodus, yn ddiweddarach yn y flwyddyn bu'r Swyddog Amrywiaeth newydd hefyd ymddiswyddo oherwydd bod problemau'n parhau gyda chael digon o amser i ffwrdd o ddyletswyddau arferol i ymgymryd â'r oriau a ddyrannwyd ar gyfer gwaith Amrywiaeth.

8. Ni fu unrhyw gyfarfodydd grŵp ffocws dros gyfnod yr haf oherwydd prinder staff a chroes ddefnydd cyson o swyddogion. Mae cyfarfodydd wedi cael eu canslo ar fyr rybudd dros ben.

9 Fodd bynnag, yn y cyfnod byr pan gyflawnodd y swyddogion eu dyletswyddau, maen nhw wedi cyflawni rhai canlyniadau da ac wedi helpu'r sefydliad i gyflawni sgôr da mewn archwiliad diweddar

10 Mae'n rhaid gwneud mwy o ymdrech i ganiatáu i Swyddogion Amrywiaeth ymgymryd â'r amser llawn a roddir iddynt i gyflawni'r dyletswyddau amrywiaeth a chynnal cyfarfodydd rheolaidd.

Addysg a Dysgu sgiliau

1. Mae darpariaeth addysg a sgiliau o safon uchel. Mae gan y dosbarthiadau addysg a gweithdai adnoddau da ac maen nhw'n cael eu rheoli'n dda, gydag awyrgylch pwrpasol. Mae'r berthynas rhwng carcharorion a hyfforddwyr yn gyffredinol yn dda ac yn aml yn rhagorol.

2. Mae'r safonau a gyflawnir gan garcharorion mewn llawer o achosion hefyd yn dda iawn ac mae amrywiaeth eang o gyfleoedd i gyflawni achrediad allanol. Cyflawnodd tri charcharor Wobrau Koestler yn 2015 ar gyfer celf, barddoniaeth a cherddoriaeth. Cyflawnwyd gwobr Aur mewn barddoniaeth. Mae carcharorion wedi cynhyrchu peth gwaith rhagorol mewn barddoniaeth, er does dim darpariaeth ar hyn o bryd. Mae hefyd yn drueni nad oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer darlunio a pheintio, maes sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at ddarpariaeth mewn carchardai eraill.

3. Mae darpariaeth addysg a sgiliau wedi elwa wrth ddychwelyd i ddarpariaeth llawn amser. Ymddengys bod yr arbrawf gyda threfn ran amser wedi arwain at leihad sylweddol mewn cyfranogiad carcharor mewn gweithgaredd pwrpasol. Mae'r gyfundrefn hefyd yn amlwg wedi gwneud rheoli a darparu cyrsiau'r anoddach ac wedi cael effaith negyddol ar gynnydd carcharorion.

4. Mae ymwybyddiaeth yn y carchar am y diffyg sgiliau sylfaenol ymhlith llawer o garcharorion. Mae'r cwrs Sgiliau ar gyfer Newid wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae'n boblogaidd gyda charcharorion, y nod yw ceisio newid ymddygiad, a gosod amcanion bywyd. Mae'r rhaglen boblogaidd hon yn cael ei chynnig i tua 20 o garcharorion fel cwrs pedair wythnos, ond mae rhestr aros i ymuno. Mae'r ffocws diweddar ar ddarpariaeth i garcharorion gydag anawsterau dysgu wedi arwain at newid mawr mewn gweithgaredd ar gyfer carcharorion yr adain therapiwtig, B1. Mae'r carcharorion bellach yn cael darpariaeth i ffwrdd o'r adain, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, garddwriaeth a sgiliau bywyd. Mae'r arwyddion cynnar o ran y ddarpariaeth yn gadarnhaol iawn, er bod llawer o garcharorion eraill yng Ngharchar Caerdydd sydd ag anawsterau dysgu.

5. Mae'r gyfradd trosiant uchel yng Ngharchar Caerdydd yn golygu her o ran darparu addysg a sgiliau. Mae nifer y carcharorion nad ydynt yn ymwneud â gweithgaredd pwrpasol yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac mae'r tîm o diwtoriaid allgymorth wedi paratoi gweithdrefn glir ar gyfer gweithio gyda'r carcharorion hyn. Fodd bynnag, mae nifer y carcharorion dan glo ar yr adenydd yn ystod amser gweithgareddau yn aml yn ymddangos yn uchel. Mae gweithgareddau ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â rhaglenni hefyd yn cael ei lesteirio neu ei atal gan broblemau gweinyddol oherwydd pethau fel oedi wrth symud offer i'r gweithdai a materion yn ymwneud â chyswllt â phartneriaid allanol .

Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl

1. Mae'r gwelliannau a nodwyd yn adroddiad y llynedd wedi cael eu cynnal ac yn cael eu monitro'n rheolaidd gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd o fewn yr adran ac o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

2. Fel arfer, mae cyfarfodydd Gofal Iechyd yn cael eu cynnal bob chwarter ac mae rhestr gweithredu benodol yn cael ei chynnwys fel rhan o'r cofnodion. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei thrafod yn rheolaidd ac mae unrhyw Ddigwyddiadau Difrifol yn cael eu cofnodi yn ogystal â chwynion a digwyddiadau yn fwy cyffredinol. Mae gwasanaethau deintyddol a gwasanaethau Iechyd Meddwl bellach yn eitemau rheolaidd ar agenda cyfarfodydd chwarterol, fel bod ansawdd y gwasanaeth yn ogystal â diogelwch yn flaenoriaethau sy'n cael eu trafod a'u monitro.
3. Mae dau Gofrestrydd Deintyddol wedi cael eu penodi ac mae peth gwaith addysgol wedi'i wneud. Mae nifer y cwynion gan garcharorion am wasanaeth deintyddol gwael wedi gostwng yn sylweddol.
4. Mae problemau'n parhau gyda chleifion nad ydynt yn dod i apwyntiadau deintyddol ac yn gynharach yn y flwyddyn, roedd problem gyda'r peiriant pelydr-x, a arweiniodd at orfod anfon cleifion at Ysbyty Athrofaol Cymru, a oedd â chost sylweddol o ran hebryngwyr a swyddogion carcharorion yn gorfod bod allan o'r carchar.
5. Bu nifer o newidiadau yn y Tîm Mewngymorth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Mae nifer o staff newydd wedi cael eu penodi a nyrs Band 6 o fewn yr adran sydd â phrofiad sylweddol yn y maes arbenigol hwn ac fe groesawir yr ychwanegiad hwn i'r tîm. Mae'r cyfarfod Atgyfeirio Iechyd Meddwl wythnosol yn llwyddiant, gan arwain at well cyfathrebu a chyfarfod amlddisgyblaeth rhwng Gofal Iechyd, Mewngymorth a Rheolwyr Gwarchodol i ystyried anghenion carcharorion mwy heriol sydd wedi arwain at well dealltwriaeth o rolau gwahanol.
6. Mae staff gofal iechyd yn pryderu bod y cyfleuster yn parhau i gael ei ddefnyddio, yn eu barn hwy, yn amhriodol, ar gyfer carcharorion sy'n credu nad yw eu diogelwch yn cael sylw digonol ar y prif adeiniau. Felly nid oes llifydd ar gael ar gyfer carcharorion sydd angen cael eu hanfon i'r adran Gofal Iechyd am driniaeth neu fonitro pryderon iechyd gwirioneddol.
7. Mae'r tîm mewngymorth yn cynnwys Nyrs Arweinydd Tîm, Band 7 a nyrs Iechyd Meddwl Sylfaenol Band 6. Mae yna Seiciatrydd Ymgynghorol, Seicolegydd Fforensig, Seicotherapydd rhan amser sydd hefyd yn gweithio gyda Chyn-filwyr, Therapydd Galwedigaethol rhan-amser Band 6 a Therapydd Galwedigaethol rhan amser Band 3. Mae hefyd gan y prif dîm gofal iechyd nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a lle bo'n bosibl, y rhan fwyaf o ddiwrnodau mae un nyrs ar rota i weithio ochr yn ochr â'r Nyrs Iechyd Meddwl Sylfaenol. Mae o leiaf 6 wythnos o aros am therapi seicolegol.
8. Mae'r Seiciatrydd Ymgynghorydd yn gweithio 7-8 sesiwn hanner diwrnod yr wythnos. Mae'n mynychu'r cyfarfodydd atgyfeirio, yn rhedeg clinigau Sylfaenol ac Iechyd Meddwl, mae'n gweld carcharorion gydag ADHD a charcharorion eraill sydd yn yr adran Gofal Iechyd.
9. Mae tua 1000 o garcharorion wedi cael diagnosis o broblemau iechyd meddwl ysgafn i ddifrifol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae tua 1,680 o atgyfeiriadau i'r tîm iechyd meddwl mewn unrhyw fis.
10. Mae "trosiant" uchel o garcharorion yng Ngharchar Caerdydd ac mae hyn yn effeithio ar yr atgyfeirio i'r tîm o garcharorion gyda phroblemau iechyd meddwl. Mae

dros 400 o garcharorion newydd yn dod i'r carchar bob mis ac mae'r rhain i gyd yn cael eu gweld gan nyrs ar ôl cyrraedd.

11. Mae hyn yn amlwg yn wasanaeth hanfodol a ddarperir gan y tîm ac mae'r ymroddiad a'r brwdfrydedd ymhlith aelodau'r tîm yn rhyfeddol.

12. Mae Rhoi'r Gorau i Ysmygu sy'n cael ei gyflwyno i'r carchardai yng Nghymru er mwyn cydymffurfio â chyfreithiau'r Cynulliad yn cael ei roi ar waith yng Nghaerdydd yn raddol rhwng Ionawr ac Ebrill 2016. Bydd hyn yn cael goblygiadau sylweddol ar gyfer yr Adran Gofal Iechyd, yn enwedig y Fferyllfa. Bydd y trosiant uchel o garcharorion sy'n mynd trwy Garchar Caerdydd yn achosi cymhlethdodau oherwydd nid yw'r carcharorion o reidrwydd yn cyrraedd o garchardai yng Nghymru ac felly ni fyddant wedi gorfod dilyn y cyfyngiadau ysmygu o'r blaen. Bydd llawer o garcharorion wedi datblygu eu harfer smygu dros nifer o flynyddoedd. Bydd y Tîm Gofal Iechyd yn darparu clytiau ar gyfer carcharorion a bydd gan hyn oblygiadau ar adnoddau stoc a staffio. Mae uwch staff gofal iechyd wedi sefydlu'r grŵp a sefydlodd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp gorchwyl a gorffen a bydd Rhoi'r Gorau i Ysmygu yn dod yn eitem reolaidd ar agenda'r cyfarfod chwarterol.

13. Mae staff y Fferyllfa yn parhau i weithio'n galed i leihau nifer y cyffuriau cymeradwy a weinyddir. Mae carcharorion yn aml yn anhapus pan, ar ôl adolygiad clinigol, bod cryfder eu meddyginiaeth yn cael ei leihau.

14. Mae Hyfforddwyr y Gampfa wedi trafod gyda'r Staff Ffisiotherapi o ran darparu rhaglenni ymarfer corff i rai cleifion gofal iechyd.

15. Mae Prosiect Asesu Anghenion Iechyd wedi cael ei sefydlu o ganlyniad i argymhelliad Arolygiaeth Carchardai yn 2013 ac wrth ragweld arolygiad pellach posibl yn y dyfodol agos. Mae hyn wedi cael ei wneud gan arbenigwr Iechyd y Cyhoedd o'r bwrdd iechyd lleol.

16. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae'r Tîm Gofal Iechyd wedi dod yn fwy cydlynol fel tîm. O ganlyniad, mae'r gwasanaethau proffesiynol maent yn eu darparu wedi gwella ac mae'r carcharorion yn derbyn gwasanaeth gwell fyth. Mae nifer o heriau o hyd, ond mae'r rhain yn cael eu bodloni gyda sylw mwy penodol.

Gweithgareddau Pwrpasol - Gan Gynnwys Gwaith

Mae pob carcharor yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol ar gyfer tri chwarter o'r dydd.

Mae carcharorion yn gadael yr adain tua 8.15 ddydd Llun i ddydd Iau, mae prynhawn Gwener ar gael ar gyfer cawodydd, glanhau'r gell. Trwy gydol y penwythnos mae yna gyfnodau ddatgloi.

Mae canolfan addysg ymarfer corff, naw gweithdy yn cynhyrchu gwaith diddorol, trwsio, glanhau masnachol, paentio ac addurno, argraffu, cegin, golchfa

Mae'r mecaneg Modur wedi'i leoli mewn hen adeilad campfa ac mae'n cael ei staffio gan staff brwdfrydig.

Ailsefydlu

1. Mae adsefydlu yng Ngharchar Caerdydd yn awr yn cael ei reoli drwy Gwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC), mae'r contract yn cael ei ddal gan Ymddiriedolaeth St Giles, sydd â chytundeb lefel gwasanaeth gyda Working Links. Mae'r cyswllt cychwynnol gyda CRC trwy gwblhau asesiad o fewn 5 niwrnod gwaith; yr wyf ar wybod bod yna gyfradd cwblhau o 100% ar yr asesiadau hyn. Mae'r ailsefydlu'n gweithio ar sail amlddisgyblaethol gydag Ymddiriedolaeth St Giles yn gweithio ar y cyd â Gofal Iechyd, Addysg a gweithwyr Cymorth Camddefnyddio Sylweddau yn y Carchar.

2. Mae'r CRC yn cynnig paratoad ar gyfer rhaglenni rhyddhau 12 wythnos cyn rhyddhau, gyda llawer ohonynt yn cael eu cyd-gyflwyno gyda chyfoedion. Mae carcharorion yn cael cynnig a'u hannog, ond nid eu gorfodi i gymryd rhan mewn cyrsiau sy'n cael eu rhedeg gan y CRC; Tai, Rheoli Arian a Chyflogadwyedd. Mae'r "llwybrau" ymchwil hyn yn dal i fod yn waith sy'n mynd rhagddo ac maen nhw'n gwella. Mae nifer o gyrsiau yn cael eu rhedeg er mwyn cynyddu cyflogadwyedd.

Sgiliau CV a Chyfweliadau

1. Nergy: Cynhelir gweithdy gyda'r nod o gynorthwyo carcharorion i sefydlu perthynas gyda golwg ar sicrhau swyddi. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gynhadledd ffôn ac ati fel rhyw fath o Asiantaeth Recriwtio.

Gyrfa Cymru a Working Links yn cynnig cefnogaeth.

2. Mae nifer o raglenni yn cael eu rhedeg i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol neu "sgiliau meddal". Fodd bynnag, fel carchar remand a dedfrydu byr mae'r trosiant cyson yn golygu ei bod yn anodd cynnig rhai rhaglenni i bob carcharor, e.e. mae Offer ar gyfer Newid yn boblogaidd ond nid oes digon o lefydd felly mae angen rhestr flaenoriaeth.

Mae yna broblemau penodol gyda:

4. Llety: Yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol a ddaeth yn sgil Deddf Tai 2014 (Cymru) a' Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, bellach nid yw carcharorion yn yr angen blaenoriaethol o ran digartrefedd pan fyddant yn gadael, fodd bynnag, os yw digartrefedd yn cael ei gydnabod mae cais yn cael ei greu gan CRC ac mae'n mynd i'r Rheolwr Troseddwyr yn y gymuned ar gyfer asesu risg. Mae Gweithiwr Cyswllt Carchardai o Tai Gwalia hefyd yn mynychu'r Carchar yn rheolaidd i gefnogi carcharorion gyda'u gofynion o ran llety.

5. Rheoli arian: Er bod y carchar, yn hanesyddol, yn gallu cefnogi carcharorion wrth agor cyfrifon banc, nid oes bellach gan y carchar na'r CRC yr adnoddau i wneud hyn.

Fodd bynnag, rwy'n deall bod hwn yn fater cenedlaethol a bod NOMS yn ceisio ei ddatrys. Ar hyn o bryd gall carcharorion yng Ngharchar Caerdydd gael mynediad at Undebau Credyd Canolfan Byd Gwaith: Helpu gyda budd-daliadau ac ymholiadau cysylltiedig eraill drwy gyfeirio staff sy'n ymddangos i fod yn gweithio

6. Mae gan PACT rôl o fewn Adsefydlu wrth ail-sefydlu, datblygu a chynnal cysylltiadau teuluol. Maent yn rhedeg nifer o gyrsiau yn ogystal â diwrnodau teuluol. Maent hefyd yn sefydlu a rhedeg grŵp babanod - plant o dan 1, cwrs perthynas, cwrs rhianta, mae pob ymweliad yn cyfrif,

7. Mae cyrsiau trais yn y cartref yn cael eu rhedeg ar y cyd â Cymorth i Fenywod, cyrsiau llythrennedd teulu. Mae unrhyw garcharor sydd ar "Ymweliadau caeedig" yn cael eu cyfeirio at PACT i weld os oes angen cymorth.

8. Mae PACT hefyd wedi cael eu contractio i redeg "Gwasanaethau trwy'r gât" ond yn anffodus ni fydd y rhain yn eu lle tan fis Ionawr. Ar hyn o bryd ymddengys bod y gwasanaethau hyn yn cael eu rheoli gan wahanol elusennau camddefnyddio sylweddau a llety er yn achos troseddwy'r risg uchel mae Rheolwyr Troseddwy'r Cymunedol yn cymryd rhan.

9. Ar y cyfan mae'r newidiadau yn cael eu hystyried fel rhai cadarnhaol. Y nod yw bodloni anghenion carcharorion mewn ffordd fwy strwythuredig ac i gynorthwyo ymagwedd y carchar o berswadio Carcharorion i "fuddsoddi yn eu cymuned" y tu mewn a'r tu allan i'r Carchar.

Fodd bynnag, mae 3 achos o bryder

10. Cyn-filwyr. Nid yw'r CRC yn cael ei contractio i gynnig cymorth penodol felly maen nhw'n cael eu cyfeirio at y Lleng Brydeinig ar gyfer Gofal a Brwydr sy'n cynnig gwasanaeth mentora

11. Mae angen gwella ystadegau a gwybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn gweithio, mae rhywfaint o'r wybodaeth yn anecdotaidd, mae'n debyg bod hyn yn cael ei ystyried yn rhanbarthol

12. O dan ariannu / adnoddau, mewn ymgais i ganolbwyntio ar y diffygion yn y gwasanaeth mae Ymddiriedolaeth St Giles yn gwneud cais am arian i alluogi iddynt gyflogi gweithiwr achos arall a gweinyddwr

Carcharu Mwy Diogel

1. Mae marwolaethau wedi bod yng Ngharchar Caerdydd dros y flwyddyn hon sydd bob amser yn achosi pryder ac yn codi cwestiynau. Er nad oes bai wedi ei anelu at yr adran hon yn benodol, rhaid i nodi carcharorion agored i niwed a hunanladdiad barhau i fod yn flaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn mae'r cynrychiolwyr IMB wedi eistedd i mewn ar brif sesiynau sefydlu adain a sesiynau sefydlu noson gyntaf. Mae'r rhain wedi cynnwys llenwi'r ddau holiadur rheolaidd ac iechyd wrth i'r IMB eu monitro.
2. Un arsylwad a allai fod angen sylw yw'r arfer o holi carcharorion i lenwi eu ffurflen tra'n sefyll yn gyhoeddus yng nghoridor y Dderbynfa. Ar nosweithiau prysur yn y Dderbynfa, pan fo staff yn ceisio prosesu mor hwylus ag y bo modd, mae dau aelod o staff iechyd a dau swyddog yn cael eu neilltuo i'r tair ystafell sydd ar gael yn yr ardal hon. Mae hyn yn golygu bod un carcharor sy'n cael ei sefydlu ar y noson gyntaf yn cael ei gyfweld yn y coridor gan swyddog arall. Mae carcharorion eraill, ac yn wir cynrychiolydd yr IMB wedi clywed cwestiynau fel "ydych chi'n awr yn teimlo y gallech gyflawni hunanladdiad?" a gofynnwyd cwestiynau perthnasol eraill tra eu bod yn sefyll i fyny yn ymyl bwrdd. Does dim cwestiwn bod swyddogion yn gwneud gwaith trylwyr iawn gyda rhyngweithio da, ond mae rhywun yn amau ai coridor yw'r lle gorau i ymgymryd ag adolygiad noson gyntaf mor sensitif a phwysig.
3. Eleni, gydag adolygiad o arferion IMB, nid yw ein cynrychiolydd yn mynychu pob cyfarfod ond mae wedi cael ei annog i ddarllen y cofnodion i adnabod tueddiadau neu broblemau. Mae'r pynciau'n cynnwys adroddiad misol gan y rheolwr Carcharu Mwy Diogel, Adroddiad Samariaid, cynllun gwella Dalfa Carchar Diogelach Caerdydd, y Cymru Ddiogelach, Materion Hyfforddi a Lleihau Trais. Mae'r ffigurau sy'n ymwneud â faint o ACCTS sy'n agored a digwyddiadau o hunan-niwed yn cael eu cofnodi a'u trafod.
4. Mae'r ymgyrch Rhoi'r Gorau i Smygu ar fin cychwyn yng Nghaerdydd ar gyfer staff ac ymwelwyr. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i boblogaeth y carchar yn gyffredinol yn y Flwyddyn Newydd. Gyda thua 80% o garcharorion yn defnyddio tybaco, mae rhai sylwadau a bygythiadau eisoes wedi cael eu clywed am wrthryfela a diffyg disgyblaeth posibl ynglŷn â sut y bydd hyn yn cael ei weithredu, gan y carcharorion. Er nad yw'n broblem yn awr, mae staff mewn trafodaethau gyda NOMS ar gynllun cyflwyniad diogel ac mae hyn yn hanfodol er mwyn osgoi gwaethygu naill ai trais neu amodau ddalfa anniogel.

Gofal a Gwahanu, Unedau Goruchwyliaeth Agos

1. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod yr ystod ganlynol o swyddogaethau craidd, gweithgareddau a chyfadranau yn cael eu bodloni yng Ngharchar Caerdydd.
 - a. Mae'r amodau, cyfadranau, trefn (ar gyfer hunan amddiffyniad (OP), hunan fuddiannau (OI) a threfn dda neu ddisgyblaeth (GOOD) carcharorion, staffio a diogelwch yn yr uned yn briodol. Roedd y gwaith papur, gan gynnwys taflenni dyddiol yn cofnodi cyfnodau o wahanu, taflenni iechyd gwahanu cychwynnol, ffurflenni ACCT/ACDT agored, wedi cael eu cadw yn gywir ac yn gyfredol.
 - b. Hysbyswyd y Bwrdd o fewn 24 awr o'r symudiadau i wahanu ac roedd aelod o'r Bwrdd yn gallu gweld a siarad yn rhydd gyda phob carcharor. Roedd caethiwed cell, llety arbennig a chyfyngiadau mecanyddol yn cael eu defnyddio'n briodol ac roedd protestiadau budr yn cael eu rheoli'n broffesiynol ac yn ddiogel.
 - c. Mae staff yr Uned Gofal a Gwahanu CASU yn cynnal deialog da gyda Gofal Iechyd a Mewnofal i reoli gofal carcharorion â phroblemau iechyd meddwl. Mae problemau gyda "charcharorion hir dymor" ar yr uned yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar lefel Llywodraethwr, gyda materion eraill sy'n peri pryder yn cael eu codi i'w trafod gan yr aelod IMB sy'n aelod sefydledig o'r Grŵp Monitro ac Adolygu Arwahanu (SMARG).
2. Mae digwyddiadau diweddar yn deillio o ddyfarniad y Goruchaf Lys Apêl yn datgan mai'r estyniad o arwahanu y tu hwnt i gyfnod cychwynnol o 72 awr oedd unig gyfrifoldeb y Gweinidog dros Gyfiawnder yn cael effaith systemig ar weithdrefnau carchar. Mae rheolau a gweithdrefnau diwygiedig yn cael eu hesblygu gan NOMS i gydymffurfio â'r dyfarniad. Yn y cyfamser, mae'r IMB wedi cael cyfarwyddyd i "Anghytuno" gyda'r penderfyniad i ymestyn Arwahanu.
3. Mae rôl ganolog y IMB mewn Adolygiadau wedi cael ei ail-bwysleisio gan NOMS ac mae gofyn i'r Llywodraethwr drefnu gwell cydlyniant o amseriadau'r bwrdd adolygu arwahanu (SRB) i hwyluso anghenion presenoldeb yr IMB.
4. Mae'r SMARG yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio ar lefel uwch Lywodraethwr. Ysgogwyd newid sylweddol ac arloesol gan yr arolygiad llawn ddiwethaf (2013) gan HMCIP. Mae'r newidiadau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac mae ymagwedd llawer mwy goleuedig a dychmygus at reoli ymddygiad.

Mewnbyn i'r Adran Gofal Iechyd

1. Mae cyfarfodydd Strategaeth Gyffuriau yn cael eu cynnal bob 2 fis ac yn tynnu ar arbenigedd o CARATS, Diogelwch, Gofal Iechyd, Seicoleg, ac eraill.

2. Mae tueddiadau, strategaethau therapiwtig , canfod, cudd-wybodaeth a phreswyllo, cudd-wybodaeth a phreswyllo ymhlith yr agweddau a drafodwyd.

3. Un mater pwysig yw'r defnydd helaeth o'r anterthau cyfreithlon hyn, fel y'u gelwir, ac yn enwedig Spice. Mae Cŵn Cyffuriau bellach yn gallu'u canfod sydd yn help mawr ond mae cryn risg o'i ddefnydd maleisus gan rai carcharorion ar eraill. Mae amryw o strategaethau yn cael eu defnyddio i helpu i adeiladu ymwybyddiaeth ymhlith poblogaeth y carchar, gan ddechrau yn ystod Sefydlu.

Mae'r grŵp aml-cyfyngau Dysgu a Sgiliau yn datblygu fideos addysg er mwyn dangos yn rheolaidd i'r holl garcharorion y risgiau a'r canlyniadau ffisiolegol.

4. Mae rhaglenni yn bodoli ar gyfer dibyniaeth ar alcohol, ond yn dibynnu'n fawr ar gwrsela rhyngpersonol nad yw bob amser yn hawdd ei drefnu. Mae'r gwaharddiad sydd ar fin digwydd ar ysmegu yn sicr o gael goblygiadau i garcharorion a staff. Mae ystod eang o strategaethau wedi'u hanelu at leihau effeithiau niweidiol yn cael eu hystyried. Mae e-sigaréts eisoes ar gael fel eitem yn y ffretur

Derbynfa

1. Mae'r trefniadau derbyn, noson gyntaf ac ymsefydlu yn drwyadl gydag ychydig o garcharorion yn teimlo'n anniogel wrth gyrraedd. Mae'r Bwrdd yn monitro'r tair ardal yn rheolaidd.
2. Mae Adain B1 yn darparu amgylchedd cefnogol ar gyfer y rhai llai abl i ymdopi. Roedd lefelau hunan-niweidio yn uwch na'r hyn y byddem yn eu hoffi, ond mae ymyrryd yn gynnwys (ACCT) yn atal problemau parhaus.
3. Mae llawer o garcharorion yn parhau i ddiodef oedi cyn cael eu cludo ar ôl ymddangosiadau llys, er bod hyn wedi cael ei adrodd yn flaenorol, mae'r sefyllfa wedi dirywio gyda charcharorion yn gwneud teithiau estynedig ar y ffordd o garchardai eraill, hyd at 10/12 awr mewn achosion eithafol, rhwng cyrraedd yn y Llys a chyrraedd eu cell.
4. Derbynnir na all y carchar wneud llawer i wella'r amseroedd hyn ar wahân i aros ar ddyletswydd, yn aml yn eithaf hwyr, er mwyn sicrhau y gellir ymdrin â materion ar frys ac yn broffesiynol.
5. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i fonitro'r cyrraedd ar y noson gyntaf, maent yn cael eu trosglwyddo i adain C ac yn cael eu paru mewn cell a rennir ac fe nodir yn glir ar ddrws y gell mai newydd-ddyfodiaid ydynt. Mae cefnogaeth ragorol ar gael ar bob adeg gan Gynghorwyr Cyfoedion hyfforddedig.
6. Mae hyfforddiant sefydlu ffurfiol yn dechrau am 10.00 ar yr adain honno y bore canlynol. Mae'r Bwrdd yn mynychu'r sesiynau hyn.

Arlwyo

1. Mae lefel uchel o foddhad o ran arlwyo gyda dim ond chwech sylw wedi'i derbyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae arlwyo yn cael ei wneud i safon uchel o fewn cegin y carchar gyda bwydlen amrywiol ac iach, gan gynnwys ffrwythau ffres gyda dognau digonol i bawb. Caiff bwyd ei weini yn boeth ac wedi'i gyflwyno'n dda yn y gwahanol leoliadau gweini yn y carchar.
2. Mae gofynion dietegol llawn yn cael eu bodloni ar gyfer pob lefel o anghenion crefyddol a rhaid rhoi sylw arbennig i'r ddarpariaeth a wnaethpwyd ar gyfer Ramadan, a oedd eleni yn gyfnod hir eithriadol o ymrydio, er mwyn bodloni'r holl anghenion crefyddol. Derbyniwyd sylwadau canmoliaethus gan garcharorion Moslemaidd am yr arlwyo yn ystod y cyfnod hwn.

GWAITH Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Dylai'r adran hon ddisgrifio sut y mae'r Bwrdd wedi cynnal ei rôl drwy gyfrwng ymweliadau rota, ceisiadau clyweliadau, adolygiadau gwahanu, cymorthfeydd, cyfarfodydd holiaduron fel goruchwylwyr, llythyrau i godi materion gyda Gweinidogion neu uwch reolwyr. Dylai'r templed canlynol cael ei defnyddio ar gyfer cofnodi data ystadegol allweddol

	2014/2015
YSTADEGAU'R BWRDD	
Y Nifer o Aelodau a argymhellir ar y Bwrdd	17
Nifer o aelodau'r Bwrdd	12
Nifer o Aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	9
Nifer yr aelodau newydd yn ymuno o fewn y cyfnod adrodd	0
Nifer yr aelodau yn gadael o fewn y cyfnod adrodd	3

Cyfanswm nifer y cyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r Sefydliad	379
Cyfanswm nifer yr adolygiadau arwahanu a gynhaliwyd	167
Cyfanswm nifer yr adolygiadau arwahanu a fynychwyd	30
Dyddiad yr Adolygiad Perfformiad Tîm Blynyddol	Mawrth 2016

Dylid bob amser gael set lawn o ystadegau ar geisiadau IMB ar ffurf y templed isod. Bydd y rhain ynghyd â sylwadau'r Bwrdd o gymorth i'r Ombwdsmon a'r rheolwyr yn gyffredinol. Dylid gwneud sylwadau lle bu newidiadau sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

Cod	Pwnc	Blwyddyn 2010/2011	Blwyddyn 2011/2012 Dim adroddiad	Blwyddyn 2012/2013	Blwyddyn 2014/2015
A	Llety	16	0	8	11
B	Dyfarniadau	1	0	0	0
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Crefydd)	7	0	16 o	7
D	Addysg/Cyflogaeth / Hyfforddiant gan gynnwys CAU	5	0	24	38
E2	Teulu/ymweliadau gan gynnwys post a ffôn	7	0	25	66
E2	Cyllid/Tâl	11	0	36	14
F	Yn ymwneud â Bwyd/y Gegin	4	0	15	4
G	Yn ymwneud ag Iechyd	10	0	159	56
H1	Eiddo (yn y sefydliad presennol)	29	0	33	19
H2	Eiddo (yn ystod trosglwyddo/mewn sefydliad arall)	11	0	52	50
H3	Ffreutur, cyfleusterau, Catalog siopa Argos.	11	0	9	7

I	Yn ymwneud â dedfrydu (gan gynnwys HDC ROTL, parôl, dyddiadau rhyddhau - ail- gategoreiddio ac ati)	31	0	89	56
J	Staff - pryderon carcharorion gan gynnwys bwlio	20	0	17	13
		2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
K	Trosglwyddiadau	21	0	46	27
L	Amrywiol	70	0	141	65
	Cyfanswm nifer y Ceisiadau IMB	416	0	770	426
	O'r cyfanswm - y nifer Mynediad Cyfrinachol IMB oedd	54	0	24	36

DADANSODDIAD O BOBLOGAETH Y CARCHAR

		18/20	Over21
Heb eu dedfrydu	14.3%	12	99
AIL-ALW	10.79%	3	80
REMAND	19.79%	12	141
DEDFRYDWYD	54.5%	13	411
AR GADW	0.4%	0	2

CENEDLIGRWYDD

PRYDEINIG	89%
GWLADOLION TRAMOR	10.2%
HEB DDWEUD	0.8%

Byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

IMB - Bwrdd Monitro Annibynnol

HDC - Cyrffyw Cadw Cartref

BME - Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

ACCT - Gwaith Tîm y Ddalfa a Gofal Asesu

CASU - Uned Gofal a Gwahanu

SMARG - Grŵp Adolygu a Monitro Arwahanu

IEP - Cynllun Cymhelliant a Breintiau a Enillir

CRC- Cwmni Adsefydlu Cymunedol

OP – Diogelu'ch Hun

GOOD - Trefn a Disgyblaeth Dda

SRB - Grŵp Arwahanu ac Adolygu

CARATS - Cynghori, Asesu, Atgyfeirio, Cynghori Trwy'r Adeg